

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol ar gyfer chwarae

Gwanwyn 2006

Chwarae yng Nghymru

“Cyfnod newydd a chyffrous ar gyfer chwarae”

Lansiwyd ‘Chwarae yng Nghymru’, Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ngardd Tŷ'r Dyfodol yn Amgueddfa Wern Cymru yn ddiweddar.

Mae'n debyg fod lansiad y Cynllun Cyflawni yn annhebyg i unrhyw ddigwyddiad arall gan y Cynulliad. Bu Jane Davidson, Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes a Margaret Jervis (Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Polisi Chwarae) yn annerch casgliad o gynrychiolwyr o'r sector chwarae a swyddogion y Cynulliad, tra bu grŵp o fechgyn a merched o wahanol ddiwyllianau, oedran a galluoedd yn chwarae o amgylch yr ardd. Bu plant hŷn yn dringo'r goeden a safai uwchben y siaradwyr ac roedd eraill yn hapus yn disgwyl eu tro yn cael eu gwithio o amgylch mewn berfa. Bu rhai o'r plant bach yn rholio o amgylch mewn tiwb cardbord.

“Mae cyhoeddi'r cynllun hwn yn mynd â ni i gyfnod newydd a chyffrous ar gyfer chwarae yng Nghymru ... mae'n nodi sut y caiff yr

egwyddorion yn y polisi chwarae eu rhoi ar waith. Mae'n dod ynghyd â'n cefnogaeth bresennol i chwarae; yn nodi ein cyfeiriad ar gyfer y dyfodol; ac yn gosod nifer o gamau gweithredu allweddol gydag amserlen ar gyfer eu cyflwyno,” meddai Jane Davidson. “Mae'r cynllun hwn yn cymryd ei le o fewn agenda seiliedig ar hawliau Llywodraeth y Cynulliad ... mae'n mynd ymlaen â'r nod graidd y dylai pob plentyn fod â hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden.”

Roedd gan y Gweinidog neges ddifrifol ond un oedd hefyd yn dathlu, ac un a gadarnhawyd gan y plant drwy'r ymchwilio'r lluo o bosibiliadau amrywiol eu hamgylch a'r holl bethau diddorol ynddo, gan brofi ac ymestyn eu gallu, meddwi am syniadau newydd a gweithredu arnynt yn eu ffordd eu hunain ar eu cyflymder eu hunain – mewn geiriau eraill buont yn chwarae.

Weithiau roedd yn anodd clywed yr areithiau oherwydd sŵn y chwarae, eto nid oedd dim

un o'r oedolion yn poeni dim oherwydd er na wyddai'r rhan fwyaf o blant oedd yn bresennol am arwyddocâd y digwyddiad, ymddangosai fod yr oedolion yn cydnabod y potensial enfawr sydd gan y strategaeth hon i gefnogi ansawdd ac arloesedd mewn darpariaeth ar gyfer plant Cymru – ac roedd y nifer fechan o blant oedd yno'n chwarae yn cynrychioli'r llawer a all fanteisio.

Cyhoeddir yr Amserlen Cyflawni ar dudalennau 4 a 5 y rhifyn hwn. Medir lawrlwytho holl ddogfen Chwarae yng Nghymru (sy'n cynnwys y Polisi Chwarae) o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://www.dysgu.cymru.gov.uk/pdfs/play-policy-implementation-plan-w.pdf>.

Os dymunwch gael copi print o'r ddogfen, medrwyd gysylltu â play@wales.gsi.gov.uk.

Parhad >113





Golygyddol

Un dydd bydd Cymru yn wlad lle rydym yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn

Cynnwys

	Tudalen
Golygyddol	2
Newyddion y Loteri Fawr	3
Aelodau Seneddol yn cefnogi Chwarae	3
Aelodaeth	3
Aelod Newydd	3
Amserlen Cyflawni	4
Geirfa – Beth yw Chwarae?	6
Safbwyntiau ar y Cynllun Cyflawni	7
Ystyr Geiriau	12
Pwysigrwydd y Strategaeth Chwarae i Weithwyr Chwarae	13
Digwyddiadau a Chyllid	14

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru deirgwaith y flwyddyn.

Medrir cysylltu â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Tŷ Balfic, Sgwâr
Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
Ffôn: 029 2048 6050
E-bost: mail@playwales.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Yr ydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn amodi unrhyw gynnyrch neu ddiwyddiad a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf

Ffôn: 029 2074 1150

E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk

Dyma weledigaeth Chwarae Cymru. Fe'i defnyddiwn yn ein cyhoeddusrwydd, yn ein cyflwyniadau mewn cynadleddau a seminarau, a medrwn hefyd ei defnyddio i brofi ein gwaith a pha mor bell y daethom i'w helpu i'w wireddu ar lefel pob dydd, pob man ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Nid dim ond slogan marchnata ffansi yw i ni – fe'i defnyddiwn fel meincnod o'n heffeithiolrwydd. Daeth Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad â ni gam sylweddol yn nes at gyflawni ein gwledigaeth a phan wnaethom ei ddarllen a meddwl ar yr hyn oedd yno, roedd pleser a chyffro mawr ymysg fim Chwarae Cymru.

Nid oes dim dau amdani, rhaid llongyfarch Llywodraeth Cynulliad Cymru am arwain y ffordd pan ddaw i wneud polisi llywodraeth ar chwarae plant a phobl ifanc – mae hyn yn gam gwych a gwerth chwell iawn ymlaen. Ond os unrhyw un yn credu y bydd Chwarae Cymru yn rhoi'r gorau i'w ymgyrchu, maent yn gwneud camgymeriad mawr. Er ein bod yn croesawu'n fawr bob agwedd o'r Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae ac yn ei weld fel ffrwyth blynyddoedd o lafur i wleidyddion a swyddogion o fewn y Cynulliad yn ogystal ag i ni, mae llawer iawn o waith yn dal ar ôl i gefnogi'r sector chwarae ar lefel genedlaethol a lleol i wneud y weledigaeth hon yn realaeth.

Efallai eich bod wedi sylwi mai argymhellid cyntaf y Grŵp Cyflawni Polisi Chwarae oedd bod 'Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer anghenion chwarae plant ...', eto mai'r cam cyntaf a ddynodwyd yng Nghynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae yw 'cynnwys dyletswydd i gydweithredu i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc lleol o ran chwarae yn y canllawiau cynllunio sy'n deillio o'r Ddeddf Plant'.

Mae'n debyg mai hwn oedd yr Argymhellid mwyaf arwyddocaol a theimlai'r sector chwarae o fewn a thu allan i Gymru mai ef oedd y pwysicaf a'r un a fedrai gyflawni mwyaf. Ac er bod y cam gweithredu yn dod i dyletswydd i

gydweithredu' yn gam sylweddol ymlaen, byddem yn annog y Cynulliad i ddefnyddio'r cyfleuster a gaiff o Fesur Llywodraeth Cymru i fynd yr ail filltir tuag at ddodi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth chwarae ddigonol, yn debyg iawn i'r ffordd y bydd y Mesur Gofal Plant arfaethedig yn dod i dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gofal plant digonol.

Yn y rhifyn arbennig hwn rydym wedi casglu sylwadau ar y Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae gan gynrychiolwyr a sefydliadau o bob rhan o Gymru a'r rhai sy'n edrych arnom tu hwnt i Glawdd Offa a thramor. Roedd yn amhosibl gofyn i bawb, ac roedd amser yn brin i rai, ond diolch i bawb a ymatebodd. Bydd ein rhifyn nesaf yn cynnwys y cyfuniad arferol o newyddion ac erthyglau yn dangos arfer da mewn darpariaeth chwarae ledled Cymru gydag erthygl ryngwladol o Seland Newydd.

Mae'r dialog am rôl a theitlau gweithwyr chwarae a gofalywyr plant yn parhau ar ein tudalennau hyfforddiant gyda sylwadau gan raddedigion gwaith chwarae a SkillsActive, y cyngor sgiliau sector. Gall cymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad i'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ychwanegu at y drafodaeth. Rydym bob amser yn croesawu cyfraniadau i'r cylchgrawn, a dyma'r math o ddialog y byddem yn hoffi ei hannog, felly anfonwch eich sylwadau atom ar hyn neu unrhyw fater arall yn gysylltiedig â chwarae.

Os ydym i adeiladu sector cryf, yna mae angen i ni droi ein syniadau a'n credoau a dod i ddealltwriaeth glir a all gyflwyno cyfleoedd chwarae safon uchel yn gyson ar gyfer holl blant Cymru ym mha bynnag osodiad neu ddarpariaeth y maent. A phan ddywedwn 'pob', yr ydym yn golygu'r hyn a ddywed y geiriadur – pob un unigolyn o ba bynnag ddiwylliant, rhyw, iaith neu gefndir neu ba bynnag amhariad, ymddygiad neu angen a all fod ganddynt. Fel y dywedodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant, mae hwn yn fater o hawl, nid disgresiwn.

Margaret Jervis

Cadeirydd, Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru



Newyddion y Loteri Fawr

Bydd cynllun buddsoddiad diweddaraf y Gronfa Loteri Fawr ar chwarae plant a theluoedd egniol ac iach yn darparu £20 miliwn dros 4 blynedd.

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr ymrwymiad i fuddsoddi yn natblygiad iach plant ledled Cymru ac maent yn trefnu cynhadledd i wahoddedigion yn unig mewn cysylltiad â Phlant yng Nghymru ddiwedd mis Ebrill.

Yn nhermau cyllid arall o'r Gronfa a fedrai gefnogi darpariaeth chwarae, mae fim y Gronfa Fawr wedi awgrymu'r dilynol:

- Bod y rhaglen Arian i Bawb yn addas ar gyfer ceisiadau ar gyfer prosiectau chwarae trothwy. Gweler: www.awardsforall.org.uk/cymraeg/wales
- Disgwyliant geisiadau i'r rhaglen Pobl a Lleoedd ar gyfer prosiectau cyfalaf megis canolfannau adnoddau chwarae. Gweler: www.biglotteryfund.org.uk/programmes/people_places/index.htm

- Y Gronfa Pobl Ifanc yw'r lle mwyaf addas i wneud cais am gyllid ar gyfer meysydd chwarae antur gyda staff. Gweler: www.biglotteryfund.org.uk/programmes/yof/index.htm
- Mae Grantiau Parciau i Bobl yn amrywio o £250,000 i £5 miliwn ar gyfer costau cyfalaf a refeniw, o'r Gronfa Loteri Treftadaeth a'r Gronfa Loteri Fawr. Mae awdurdodau neu sefydliadau dielw eraill sy'n berchen ar barciau cyhoeddus yn gymwys i wneud cais i brosiectau sy'n adfywio ac yn creu cyfleoedd newydd i gymunedau ddysgu am a mwynhau eu hamgylchedd lleol. Derbynnir ceisiadau ddwywaith y flwyddyn. Mae manylion pellach ar gael o <http://tinyurl.com/df3e>.

Aelodaeth

Daeth Chwarae Cymru yn sefydliad aelodaeth – gydag aelodaeth blwyddyn yn costio dim ond £25 y sefydliad (i'w adolygu yn 2007). Amlinellwyd manteision aelodaeth yn rhifyn diwethaf Chwarae dros Gymru, ac mae ein fim mewn trafodaethau am gynlluniau eraill a fydd yn gwneud aelodaeth yn werth chwell i ddarparwyr chwarae mawr a bach yng Nghymru.

Yn dilyn y cyhoeddiad yn y rhifyn diwethaf, cododd nifer fechan o bobl sy'n derbyn Chwarae dros Gymru bryderon mai dim ond aelodau y gall ein fim eu cefnogi yn y dyfodol. Nid felly y mae. Fel sefydliad rydym yn ymroddedig i weithio ar lefel briodol gyda phawb sy'n darparu ar gyfer chwarae plant yn ein gwlad, ond fim bychan ydym gydag adnoddau cyfyngedig felly ceiswyr ddefnyddio ein sgiliau a'n gwasanaethau mor strategol ag sydd modd.

Gofynnir i chi nodi nad yw'n friad gennym i aelodaeth Chwarae Cymru gymryd lle neu ddyblygu aelodaeth unrhyw sefydliad chwarae lleol neu ranbarthol arall, ond y'i bwriedir i fod â swyddogaeth neilltuoled a'n helpu i gynrychioli chwarae plant yn well ar lefel genedlaethol ac ymateb yn fwy effeithiol i anghenion ein heitholaeth eang iawn.

Mae Chwarae Cymru yn elusen gofrestrig ac mae ein maes budd elusennol wedi ei gyfyngu i Gymru, felly nid yw rhai o fuddion aelodau (er enghraifft disgownt ar leoedd cynhadledd) ond ar gael i aelodau yn gweithio o fewn Cymru.

I gael aelodaeth ffonwch 029 2048 6050 neu e-bost: kathy@playforwales.org.uk.

Aelodau Seneddol yn cefnogi Chwarae

Cynhaliwyd cyfarfod gyntaf y Grŵp Seneddol Ollbleidiol ar Chwarae Plant ym mis Rhagfyr gyda nifer o ASau Cymru yn cymryd rhan.

Bydd llawer nad ydynt yn gweld **Bunrhyw reswm am glustnodi amser seneddol i rywbeth a fedrai ymddangos yn bitw o'i gymharu gyda materion pwysig y wladwriaeth, ond fel y dywedodd Adrian Voce, Cyfarwyddyd Cyngor Gwasanaethau Chwarae Lloegr:**

"Cafodd y rhan fwyaf o'r genedlaeth sy'n ymwneud â gwneud polisi eu magu mewn cyfnod ac mewn diwylliant lle medrent gymryd yn ganiataol fod plant yn chwarae y tu allan o'u dymuniad eu hunain heb angen am wasanaethau oedolion, heb sôn am bolisi llywodraeth."

Ni fedrir bellach cymryd yn ganiataol y bydd gan y plant yr amser, y gofod na'r cyfle i chwarae a fwynhawyd gan y rhan fwyaf ohonom ni'r oedolion pan oeddem

yn iau. Dengys arolwg diweddar gan y Swyddfa Gartref* nad yw cynifer â 25% o rai 8 – 10 oed erioed wedi chwarae y tu allan heb arolygaeth oedolion.

Yr ASau o Gymru sy'n aelodau'r Grŵp yw:

Chris Bryant, Rhondda (Llafur), Martin Caton, Gŵyr (Llafur), Lembit Opik, Maldwyn (Rhydd Dem), Chris Ruane, Dyffryn Clwyd (Llafur), Elfyn Llwyd, Meirionnydd Nant Conwy (Plaid Cymru), Mark Williams, Ceredigion (Rhydd Dem) a'r Arglwyddes Finlay o Landaf o Dŷ'r Arglwyddi.

*Arolwg *Dinasyddiaeth y Swyddfa Gartref/DfES/Swyddfa Gartref*

Aelod newydd i'r fim



Ben Tawil yw aelod diweddaraf fim Chwarae Cymru. Bydd yn gweithio wrth ochr Tony Chilton, ein Uwch Swyddog Datblygu, nes y bydd Tony yn ymddeol yn yr Hydref pan ddaw Ben yn llwyr gyfrifol am ein gwaith datblygu yn y Gogledd.

Dywedodd Ben: "Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda Chwarae Cymru ac yn ei theimlo'n ffraind fawr i fedru sicrhau newid i chwarae plant yn y Gogledd a hwyluso datblygiad strategol gwaith chwarae yn genedlaethol.

"Rwyf wedi gweithio gyda phlant am y rhan fwyaf o fy oes, p'un ai yn ffurfiol neu'n anffurfiol yn amrywio o warchod plant hyd at fod yn Rheolydd Cynorthwyl y Venture yn Wrecsam. Rwy'n angerddol am chwarae a hawl plant i chwarae ac rwy'n teimlo'n gryf nad rhywbeth i'w wneud yn eich amser sbâr ydyw ond fod chwarae yn sylfaenol i iechyd a lles dynolryw ac o fudd cynhenid i gymdeithas yn gyffredinol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag ac ar ran pawb sy'n ymwneud â darparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn y Gogledd."



Amserlen Cyflawni

CAMAU I'W CYMRYD	YR AMSERLEN	CAMAU I'W CYMRYD	YR AMSERLEN
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys dyletswydd i weithredu i fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc lleol o ran chwarae yn y canllawiau cynllunio sy'n deillio o'r Ddeddf Plant. Bydd hyn yn cynnwys yr angen am gyfleusterau chwarae antur sydd wedi'u staffio, a fydd yn darparu amgylchedd cyfoethog i blant chwarae ynddo er mwyn gwneud yn iawn am ddiffyg mannau awyr agored naturiol. Bydd hefyd yn cyfeirio at yr angen i gyfleoedd chwarae fod ar gael i bob plentyn; ni ddylai unrhyw blentyn deimlo na all gymryd rhan oherwydd iaith, hil, rhyw neu wahanol lefelau o allu.	Mis Mawrth 2007	Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo i ddatblygu adnoddau hyfforddiant chwarae ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu mewn ysgolion, a thynnu sylw pob ysgol atynt.	Mis Medi 2007
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio canllawiau i sefydliadau gofal plant ynghylch yr hyn y mae cyfleoedd o ansawdd da i chwarae yn ei olygu.	Mis Mawrth 2007	Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn tynnu sylw at y cyfleoedd y mae Ysgolion Bro yn eu cynnig o ran cyfleusterau chwarae newydd, a bydd yn llunio canllawiau ar sut y gellir datblygu'r rhain yn effeithiol.	Mis Medi 2006
Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio ym meysydd ffyrdd iach o fyw a chwarae, er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac yn sicrhau bod ganddo effaith strategol glir.	Manylion i'w cyhoeddi yng Ngwanwyn 2006	Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori'n eang, gan gynnwys â phlant a phobl ifanc, wrth adolygu'r Nodiadau Cyngor Technegol Cynllunio sy'n ymwneud â mannau agored, chwarae a hamdden.	Ymgynghoriad i gychwyn yng Ngwanwyn 2007.
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys ag ymarferwyr, cymunedau a phlant i ddatblygu safonau ar gyfer amrywiaeth eang o ddarpariaethau chwarae. Bydd y rhain yn orfodol ar gyfer darpariaethau chwarae sy'n cael eu cyllido gan grantiau penodol a byddant yn arwain y ffordd ar gyfer darpariaethau eraill. Bydd y safonau hyn yn adeiladu ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Chwarae Mynediad Agored. Byddant yn annog cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o gynllunio a dylunio cyfleusterau chwarae lleol.	Cychwyn: Mis Chwefror 2006 Cwblhau: Mis Mawrth 2008	Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog y rheini sy'n ymwneud yn lleol â thrafnidiaeth a darpariaethau chwarae i gydweithredu wrth fwrw ati â pholisïau Parthau Cartrefi'r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru.	Parhaus
		Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo i ddatblygu canllawiau newydd i awdurdodau lleol ar ddarpariaethau chwarae cymunedol priodol. Bydd y rhain yn ategu'r Nodiadau Cyngor Technegol a byddant yn cynnwys materion yn ymwneud â staffio, yn ogystal â sicrhau nad yw'r cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i gynghorau cymuned heb gyfrannu'r arbenigedd priodol.	Mis Mawrth 2007



CAMAU I'W CYMRYD	YR AMSERLEN	CAMAU I'W CYMRYD	YR AMSERLEN
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda Chwarae Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael am hyfforddiant ar bob lefel ar gyfer gweithwyr chwarae.	Parhaus	Trwy safonau newydd ar gyfer darpariaethau chwarae, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn diffino meincnod gyhoeddus ar gyfer cydbwysu'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth chwarae.	Mis Mawrth 2008
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu'r gweithlu plant, gan gynnwys datblygu un fframwaith cymwysterau a datblygu set gyffredin o sgiliau a gwybodaeth.	Parhaus	Yn ei rhaglenni cymorth i rieni, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog cyfleoedd i blant o bob oed chwarae.	Parhaus
Fel rhan o'r Strategaeth hon a'r Cynllun Cyflawni Gofal Plant, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw, ar y cyd â SkillsActive, sef y cyngor sgiliau sector.	Cyhoeddi canllawiau erbyn mis Mawrth 2006	Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu llawlyfr i rieni ar yr hyn ydyw chwarae o ansawdd da, a sut y gallent hwyluso'r chwarae hwnnw.	Mis Medi 2006
Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i'r Llywodraeth ganolog adolygu effaith trefniadau "dim llwyddiant – dim ffi" ar weithgareddau plant.	Mis Mawrth 2006	Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i sicrhau bod chwarae yn cael ei gydnabod fel modd o ddarparu gweithgareddau seicolegol a chorfforol pleserus i bob plentyn, a bydd yn comisiynu ymchwil yng Nghymru i fanteision seicolegol gweithgareddau chwarae y mae plant yn eu dewis o'u gwirfodd eu hunain.	Comisiynu ymchwil: Mis Medi 2006 Adrodd: Mis Medi 2007
Camau i'w Cymryd: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn diwygio'r Rheoliadau ar gyfer Gwarchod Plant a Gofal Dydd i'w gwneud yn ofynnol asesu risgiau yn hytrach nag osgoi pob math o risg diangen.	Mis Medi 2006	Camau i'w cymryd: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn profi ei bolisiau am eu heffaith ar weithgareddau chwarae plant trwy ei Borth i Bolisiau.	Mis Mawrth 2006



Geirfa

Beth yw Chwarae?

Dyma restr fer o dermau allweddol a'u diffiniad yng nghyswllt bwriadau'r Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae.

Chwarae: Proses yn cwmpasu ymddygiad plant a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid.

Mae "**dewisir yn rhydd**" yn golygu fod plant yn dewis eu gweithgareddau chwarae eu hunain a phryd y gwnânt hynny. Yn hynny o beth, nid yw'n rhan o raglen benodol ac nid oes ganddo unrhyw gamau sydd angen eu cwblhau.

Mae "**a gyfarwyddir yn bersonol**" yn golygu fod y plant eu hunain yn cyfuno ar rolau neu reolau'r gweithgaredd: maent yn penderfynu canlyniadau dymunol os oes rhai.

Mae "**a gymhellir yn gynhenid**" yn golygu ei fod er ei fwyn ei hunan ac nid ar gyfer unrhyw wob, tystysgrif neu statws a roddir yn allanol.

Gwaith chwarae: Mae'r proffesiwn yn cynnwys unigolion gyda'u prif bwrpas i hwyluso cyfleoedd chwarae plant. Yn hynny o beth, mae'n hollbwysig fod ganddynt sgiliau a nodweddion yn cynnwys gwybodaeth o bwysigrwydd datblygol chwarae plant, dealltwriaeth o werth a rôl cymryd risg a sut i gyfoethogi profiadau bywyd yn nhermau agwedd, dyluniad ac adnoddau.

Darpariaeth ar gyfer gwaith

chwarae: Mae gofodau a gosodiadau a ddarparwyd ar gyfer plant i brofi amrediad eang o gyfleoedd a phrofiadau fel a amlinellir islaw. Gall hyn gynnwys meysydd chwarae antur, canolfannau chwarae, cynlluniau chwarae allan o'r ysgol, darpariaeth chwarae symudol, darpariaeth chwarae cynnar, gofodau agored, ardaloedd



chwarae sefydlog mewn coetiroedd.

Amgylcheddau chwarae cyfoethog: Dylai darpariaeth ymdrechu i ddarparu amrediad eang o gyfleoedd megis:

- Chwarae gydag elfennau naturiol
- Amgylchedd chwarae amrywiol, ysbrydoledig a diddorol
- Chwarae gyda hunaniaeth, yn cynnwys cymryd gwahanol lefelau o gyfrifoldeb
- Profi amrediad o opsiynau
- Ysgogi'r pum synnwyr
- Heriau yn yr amgylchedd ffisegol sy'n galluogi plant i brofi eu terfynau a'u galluoedd
- Symudiad (megis rhedeg, neidio, rhoio, dringo, cydbwysedd)
- Trin amrediad o ddeunyddiau naturiol a gwneuthuredig
- Rhyngweithio cymdeithasol, yn cynnwys er enghraifft medru dewis p'un a phryd i chwarae ar ben eich hunan neu gydag eraill

Cyhoeddwyd y rhestr hon gyntaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004 fel rhan o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn sail i'r Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae.

Rhestr Cyswllt Chwarae

Canolbarth

Rhwydwaith Chwarae Brycheiniog	01874 622446
Fforwm Plant a Theuluoedd Powys	01654 700352

Gogledd

CBS Conwy	01492 575559
Cyngor Sir Ddinbych	01745 345234
Cyngor Sir y Fflint	01352 702469
Cyngor Sir Gwynedd	01286 679452
Cymdeithas Chwarae a Caeau Chwarae Gogledd Cymru	07814 721459

De

CBS Blaenau Gwent	01495 294035
CBS Pen-y-bont ar Ogwr	01656 642725
Prosiect Chwarae Creadigol Caerffili	01443 822644
CBS Sir Caerfyrddin	01267 224212
Cymdeithas Ieuencid a Phlant Caerfyrddin	01554 757599
Gwasanaethau Chwarae Plant, Cyngor Sir Caerdydd	029 2087 3911
Sir a Dinas Abertawe	01792 635154
Interlink, Rhondda Cynon Taf	01443 485337
Interplay, Abertawe	01792 475938
Fforwm Chwarae Merthyr Tudful	01685 353960
Cyngor Sir Fynwy	01633 644540
CBS Castell-nedd Port Talbot	01639 765194
CBS Casnewydd	01633 232752
Chwarae lawn, Abertawe	01792 794884
Recreate, Caerdydd a Bro Morgannwg	029 2057 8100
CBS Rhondda Cynon Taf	01443 424417
CBS Torfaen	01495 740924
CBS Bro Morgannwg	01446 704809
Valley Kids, Rhondda Cynon Taf	01443 420870
Chwarae Cymru	
Tony Chilton/Ben Tawil, Swyddfa Gogledd Cymru	01745 851816
Marianne Mannello Swyddfa De Cymru/Genedlaethol	029 2048 6050



Safbwyntiau ar y Cynllun Cyflawni



Swyddfa'r Comisiynydd Plant:

Caiff hawl plant i chwarae ei goleddu yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ond hyd yn oed wedyn caiff ei ystyried weithiau yn foethusrwydd yn hytrach nag yn hawl.

Drwy bob agwedd o'n gwaith, ac yn arbennig drwy ein gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, gwyddom fod darpariaeth lleoedd a gofod safon uchel ac amser ar gyfer chwarae yn un o'u blaenoriaethau allweddol. Mewn gwirionedd, yn dilyn ein gwaith i roi llais i bobl ifanc yn y ffordd y gweithiwn ar hyn a

wnawn, daeth i'r amlwg fel un o'r prif ddau fater uchaf y credai plant a phobl ifanc y dylai'r Comisiynydd edrych i mewn iddynt yn y flwyddyn i ddod.

Tra caiff yr ysfa i chwarae ei ddangos ym mhob rhan o fywydau plant – yn yr ysgol, gartref, yn y gymuned – mae gormod o achosion lle mae cynllunwyr gwneuthurwyr polisi a darparwyr chwarae lleol yn methu gwerthfawrogi fod yn rhaid cymryd chwarae o ddirif a gwneud darpariaeth.

Ymddengys fod y ddogfen hon gan Lywodraeth y Cynulliad wedi rhoi ystyriaeth i bwysigrwydd chwarae. Croesawn yr addewid i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a dylunio eu lleoedd chwarae ac amgylcheddau eraill, nid yn unig oherwydd bod ganddynt hawl i gymryd rhan ond oherwydd bod plant yn arbenigwyr ar y mater.

Mae'n amlwg mai'r peth pwysicaf yw'r hyn sy'n digwydd nesaf, ac mai dim ond cam cyntaf yw'r ddogfen hon. Ar ran plant a phobl ifanc Cymru, byddwn yn edrych i weld fod gweithredu yn dilyn ar lefel y Cynulliad a hefyd y lefel leol. A thrwy edrych i'r mater hwn fel prosiect i'r Comisiynydd, byddwn yn casglu tystiolaeth gadarn gan y bobl sydd yn y lle gorau i ddweud wrthym os yw'n gwneud gwahaniaeth go iawn – plant a phobl ifanc eu hunain.

Plant yng Nghymru:



Catriona Williams, Prif Weithredydd, Plant Cymru, y sefydliad ymbarél cenedlaethol i blant.

Rydym yn falch y cydnabyddir yr ymagwedd peidio-cadw-plant-wedi'u-lapio-mewn-gwlân-cotwm. Mae gweithredu i hybu'r proffesiwn gwaith chwarae hefyd yn hollbwysig.

Fodd bynnag, nid mater syml fydd gwneud i'r Cynllun weithio. Mae'n debyg y bydd materion yn ymwneud â gweithredu ac mae'n debyg y bydd llawer o wrthodiad. Os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wirioneddol eisiau cyflawni popeth sydd yn y Cynllun, gall fod yn rhaid iddi gyflwyno mesurau cryfach yn y dyfodol.



Sustrans:

Dafydd Thomas, Rheolydd Rhaglen Teithio Egniol, Cymru

Mae Sustrans Cymru yn falch fod Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae'r Cynulliad yn cydnabod yr effaith negyddol a gaiff traffig a dyluniad yr amgylchedd adeiledig ar allu plentyn i chwarae a chael bywyd egniol. Adlesiwn eu pryderon fod angen i blant gael cyfleoedd diogel i fynd

allan ac ymchwilio eu bro yn ehangach. Croesawn hefyd ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu Parthau Cartref, ardaloedd 20 milltir yr awr a sicrhau integreiddiad polisiâu eraill ar lefel genedlaethol a lleol. Yn anffodus nid yw amser o'n plaid – mae cynyddu lefelau traffig, newid hinsawdd a'r hyn a ystyriwn yn ddiffyg cyfle i unigolion chwarae neu fod yn gorfforol egniol fel arall, yn golygu y bydd angen newidiadau ynghynt yn hytrach nag yn hwyrach.

Cred Sustrans Cymru fod pobl ifanc a phlant angen 'Llywbrau Diogel' i ysgolion lleol, siopau, sinemâu, tai ffrindiau ac ardaloedd lle maent eisiau rhyngweithio, chwarae a theimlo'n ddiogel. Teimlwn hefyd fod angen i draffig gael ei arafu a'i reoli, fel ei bod yn fwy diogel i bobl o bob oedran i fynd o gwmpas eu hardaloedd lleol.

Richard Parry:

Richard Parry, Cyfarwyddyd Strategol dros Addysg, Cyngor Sir Abertawe.

Mae'r Cynllun Cyflawni Chwarae yn fframwaith ardderchog lle gall awdurdodau lleol ddatblygu a gweithio ar strategaethau i godi proffil pwysigrwydd chwarae fel ffordd i ddysgu a gwneud synnwyr o'r amgylchedd o'n cwmpas yn ogystal â help i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac fel dull ar gyfer hamddena. Er bod y Cynllun yn gosod agenda heriol, yn arbennig i ysgolion, mae'n un sy'n ffitio'n dda o fewn y cysyniad o ysgolion gyda ffocws cymunedol.



Canolfan Plant Integredig:

Sarah Mutch, Rheolydd Canolfan Plant Integredig, Tredegar Newydd.

Mae'r Strategaeth Chwarae hon yn ymuno a chryfhau strategaethau cyffredinol a chynlluniau sydd â chwarae yn greiddiol iddynt. Mae dogfennau ymgynghori Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg yn rhoi sylw i rôl Canolfannau Plant Integredig a datblygu plant a theuluoedd drwy wasanaethau ansawdd uchel yn cynnwys gofal plant. Credid ers amser maith y dylai gofal plant ansawdd uchel gynnig cyfleoedd a phrofiadau cyfoethog, gan alluogi plant i ddewis a datblygu eu chwarae yn rhydd. Mae gwahanol astudiaethau wedi dangos fod gwella cyfleoedd chwarae safon uchel ar gyfer dysgu drwy brofiad yn achosi gwella syfrdanol mewn cymhelliant a datblygiad cyfannol plant unigol. Mae'r holl ymgyrch ar gyfer cyfleoedd chwarae safon uchel o fewn y dogfennau hyn yn ei gwneud yn ddyletswydd aniom pan weithiwn gyda phlant a phobl ifanc i gynnig y profiadau safon uchel i'n holl blant o'r rhai ieuengaf oll (a ni ddylai stopio bod yn hwyli i ni fel oedolion).

Yng Nghanolfan Plant Integredig Tredegar



Newydd, cynigiwn bedair elfen graidd Addysg Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant, Chwarae Mynediad Agored a Chefnogaeth/Hyfforddiant Teulu. Rydym bob amser yn edrych ymlaen at y dyfodol a'r ffordd orau i ni ateb anghenion ein cymuned leol. Credwn mai drwy ddysgu y mae plant yn dysgu orau ac mae chwarae yn ganolog i'n holl weithgareddau. Ceisiwn ymrwymo gyda'n holl blant a phobl ifanc a chynnig llawer o gyfleoedd iddynt ddatblygu eu chwarae eu hunain. Teimlwn yn llwus iawn i gael amgylchedd hynod yn llawn o brofiadau cyfoethog fel eu bod yn teimlo'n ddioget ac yn medru ymchwilio eu potensial eu hunain tra'n mwynhau eu hunain!

'Lle i freuddwydio,
 Lle i ymchwilio,
 Lle i ddarganfod'



Clybiau Plant Cymru Kids Clubs:

Fel aelod o'r grŵp a luniodd y strategaeth, rydyn ni yng Nghlybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cefnogi'r Strategaeth Chwarae newydd – y gyntaf ym Mhrydain – ac edrychwn ymlaen at ei rhoi ar waith.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids Clubs yn cefnogi gofal plant ansawdd uchel gyda chyfle ar gyfer chwarae a ddewisir yn rhydd drwy gyflwyno hyfforddiant ymarferol priodol, ynghyd ag adnoddau a gwybodaeth i gynnal polisi ac arfer safon uchel mewn clybiau allan o'r ysgol.

Menter Iaith Abertawe:

Siwân Thomas, Prif Swyddog:

Un o'n prif nodau yw sicrhau fod plant a phobl ifanc Abertawe sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg yn medru cymdeithasu yn eu dewis iaith mewn ffordd gyfeillgar, diogel a hygyrch. Rydym wedi gweithio'n galed i ddarparu cyfleoedd newydd a chreadigol i blant a phobl ifanc i dreulio eu hamser allan o oriau ysgol, yn ogystal â sicrhau fod gweithgareddau o safon uchel drwy hyfforddi pobl ifanc – y cyfan drwy

gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ei dro wedi datblygu sgiliau cyfathrebu, rheoli ac iaith hanfodol yn y bobl ifanc sy'n rhedeg ein clybiau a chynlluniau chwarae.

Mae'r Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae wedi codi rhai pwyntiau pwysig iawn am hawl plant a phobl ifanc i chwarae, ac mae Menter Iaith Abertawe yn cefnogi hynny'n llawn. Fodd bynnag, mae rhai materion parthed darpariaeth iaith Gymraeg sydd angen eu hystyried ymhellach.

Mae plant a phobl ifanc sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn aml yn gofod teithio y tu allan i'w cymuned i fynd

i'r ysgol. Mae hyn yn syth yn ei gwneud yn anodd cymdeithasu gan nad yw eu ffrindiau ysgol yn byw'n agos. Mae plant a ddewisodd weithgareddau chwarae drwy gyfrwng y Gymreg dan anfantais oherwydd eu bod yn gofod teithio y tu allan i'w cymunedau i gael y math o ddarpariaeth a gynigir gan Fenter Iaith Abertawe. Rydym angen mwy o gynlluniau chwarae cyfrwng Cymraeg yn lleol, mwy o weithwyr ieuencid/chwarae sy'n medru'r Gymraeg a mwy o hyfforddiant ar gynnal gweithgareddau yn ddwyieithog.

Swyddogion Chwarae Cymru:

Mae Swyddogion Chwarae Cymru yn croesawu'r Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae, yn arbennig ei gwmpas eang o gamau gweithredu. Mae'r cynllun yn nodi'n glir yr hyn a wnaiff y Llywodraeth i fod yn sail i ymateb strategol ar lefel leol ledled Cymru.

Mae Swyddogion Chwarae Cymru yn bryderus am her trosi'r ddogfen hon ar lefel leol. Os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau i hyn gael ei goleddu ar lefel Partneriaeth Fframwaith, mae angen iddi roi arweiniad cydlynol yng nghyswllt aelodaeth partneriaeth. I'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu hyn i wneud synnwyr a gwneud gwahaniaeth i blant ar lefel leol, bydd angen i Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn ogystal ag asiantaethau eraill ac adrannau llywodraeth leol eu deall. Ar hyn o bryd, mae cynrychiolaeth y sector chwarae ar barneriaethau yn ddarniog yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Rydym yn bryderus efallai na

fydd gan rai o'r rhai sydd â'r dasg o gynrychioli chwarae profiad a'r wybodaeth briodol i ymateb i ymrwymiad ac ethos y Cynulliad tuag at chwarae. Mae angen i'r polisi hwn fynd i'r afael â hynny a chynllunio realaeth i i bob plentyn yn byw yng Nghymru.

Mae aelodau Swyddogion Chwarae Cymru yn croesawu ac yn cymeradwyo ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i chwarae yng Nghymru ac yn edrych ymlaen at fod yn ganolog yng ngweledigaeth tymor hir y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n tyfu fyny yng Nghymru.



CARMARTHENSHIRE YOUTH AND CHILDREN'S ASSOCIATION
CYMDEITHAS PLANT A PHOBL IFANC SIR GÂR

CYCA:

Gadewch i ni roi **CHWARAE** i fyny yna lle dylai fod.

Ac onid yw *Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae* Llywodraeth Cynullid Cymru yn gwneud y tric?

Mae Cymdeithas Ieuencid a Phlant Caerfyrddin (CYCA) wedi gweithredu clybiau a gweithgareddau chwarae am 25

mlynedd, gan roi cyfleoedd chwarae ystyrion i ateb anghenion plant yn Llanelli a Sir Gaerfyrddin – yn awr mae gennym ddogfen a fydd yn dilysu'r gwaith hwnnw a rhoi cyfeiriad i bawb. Caiff chwarae yn awr ei gydnabod yn swyddogol fel rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn a bydd y ddogfen hon yn helpu sefydliadau megis CYCA i barhau ei waith a datblygu syniadau a fydd yn arwain at welliant sylweddol ym mywyd plant.

Mae chwarae yn y gymuned bob amser yn gonsym gwirioneddol i rieni yr ydym yn ymwneud â hwy,

"Ddylen ni adael iddyn nhw fynd allan i chwarae?"

Bydd CYCA yn gweithredu dogfen Llywodraeth y Cynullid fel canllaw i'r hyn y medrir ei gyflawni, drwy gefnogi ac annog cyfleoedd i blant i chwarae yn ein cymunedau.

Bydd hyn yn cynnwys ymrwymo gyda sefydliadau partner i gadw ein strydoedd a'n parciau ar agor ar gyfer chwarae!

Maria Austin
Swyddog Chwarae CYCA



Gweithiwr Chwarae Antur The Venture:

Meewn ymateb i ymrwymiad Llywodraeth y Cynullid am yr hyn y gall ei wneud am y diwylliant ymglyfreitha:

"Profiadau chwarae ac nid ofn ymglyfreitha ddylai fod yn flaenoriaeth i weithwyr chwarae. Rydym yn falch i weld fod y Cynullid yn cydnabod hyn."

Mel Kearsley.

Joe (11), Rhondda Cynon Taf:

Pan gefais fy ngwahodd i fynychu lansiad y Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae yn Amgueddfa Werin Cymru, roeddwn yn edrych ymlaen yn fawr oherwydd fy mod yn eitha siŵr y byddwn yn cael amser da ac yn cael bore i ffwrdd o'r ysgol! Os byddwn wedi gwylbod fod Chwarae Cymru yn mynd i ofyn i mi ysgrifennu rhywbeth am hyn, efallai y byddwn wedi rhoi mwy o sylw i'r hyn gafodd ei ddweud ond roeddwn yn rhy brysyr yn dringo coeden!

Fe wnes i ddechrau edrych ar y Cynllun, ond cefais hi'n anodd ei ddarllen i gyd felly fe wnes benderfynu rhoi sylw i'r pethau roeddwn i yn eu deall. Rwy'n meddwl fod y darn am annog mwy o ddarpariaeth chwarae yn bwysig iawn. I fy ffrindiau a finnau, mae'n debyg mai chwarae ydi'r peth pwysica rydyn ni'n wneud. Weithiau rydyn ni'n mynd i drafferthion am ein bod ni'n chwarae pan ddylen ni fod yn gwneud rhywbeth arall, fel chwarae gwlyb yn yr ysgol. Allwn ni ddim peidio'i wneud e, ac mae'n edrych fel petai popeth a wnawn yn anghywir.

Beth bynnag mae'r darn am gael clybiau ar ôl ysgol yn dda; mae'n dda cael clybiau fel bod mamau a thadau yn gallu gweithio, ond dim os ydi plant yn gorfod bod dan do neu'n gwneud pethau sydd wedi eu trefnu gan oedolion. Mae'n dda cael pobl mewn oed i'ch helpu gyda rhywbeth neu edrych ar eich ôl os ydych wedi brifo, ond nid i ddweud wrthyf beth i'w wneud oherwydd ein hamser sbâr i ydau ein hamser tu allan i'r ysgol.



Bydd y darn am ysgolion yn wirioneddol bwysig. Ar hyn o bryd dwi ddim yn meddwl fod pobl mewn oed yn yr ysgol yn ei ddeall. Mae lleoedd lle fedren ni chwarae yn fy ysgol fel ar y glaswellt ac mewn gardd, ond chawn ni ddim gwneud hynny. Mae fy

ysgol yn adeiladu ar y glaswellt ond dydyn nhw ddim yn gadael i ni chwarae o gwbl yn yr ardd. Byddai hynny yn beth syml iawn i'w newid. Dwi wedi siarad am hyn mewn cyfarfodydd o gyngor yr ysgol ond mae'r Pennaeth bob amser yn siarad am 'iechyd a diogelwch'! Mae'n ei ddweud mor aml fel ein bod ni'r plant hyd yn oed yn ei ddweud! Mae gennym ysgol fro yn ymyl ein pentref ac mae'r gofalwr yno wedi dweud wrthym y medrwn fynd a chwarae pêl-droed yna pan mae wedi cau, er bod pawb ohonon ni'n mynd i wahanol ysgol, a dwi'n meddwl fod hynny'n garedig oherwydd y byddai'n Pennaeth a'n gofalwr ni yn dweud NA!"

Pan oeddwn yn darllen am chwarae yn y gymuned, fe wnes feddwl am le rydwi'n chwarae. Dwi'n chwarae mewn lôn sy'n dda ar gyfer mynd ar gefn beic a gwneud den. Rydyn ni'n medru defnyddio'r cae criced ac mae'r dyn yng ngofal y cae yn gadael i ni chwarae yno. Un o'r pethau pwysicaf am lle rydwi'n byw sy'n ein helpu i chwarae yw nad ydyn ni'n byw ar ffordd gyflym, felly rydwi'n falch fod y Cynullid yn mynd i wneud rhywbeth i'w gwneud yn haws i blant sy'n byw ar ffyrdd prysur.

Un o'r pethau gorau a wnaethon ni ar y lôn oedd adeiladu tomen ddail ar waelod coeden. Fe gawson ni ysgol o dŷ un o'r bechgyn mawr a'i defnyddio i ddringo oherwydd nad oedd canghennau isel. Yna roedden ni'n neidio i'r domen enfawr. Dywedodd menyw oedd yn cerdded heibio ei fod yn beryglus. Mae'n debyg ei fod yn edrych felly, ond roedd fy mrawd a finnau'n ofalus i ddechrau gan nad oedden ni'n gwylbod beth fyddai'n digwydd. Fe wnaethon ni ddilyn y bechgyn mawr unwaith i ni ei wneud e ychydig o weithiau, fe ddaethon i arfer ac roedd yn hwyf fawr.

Dwi ddim i yn mynd yn aml i unrhyw lle lle mae gweithiwr chwarae, ond dwi'n meddwl ei fod yn beth da i'w cael o gwmpas. Pan oedden yn y lansiad yn Amgueddfa Werin Cymru, roedd rhai gweithwyr chwarae yno yn edrych arnon ni a chwarae gyda ni pan wnaethon ofyn iddyn nhw. Fe wnaethant roi tiwbiau a rhywd i ni. Fe syrthiodd fy chwaer allan o'r ferfa yno, ond roedd yn iawn. Yn fy ysgol mae athrawon a menywod cinio yn gwneud cymaint o ffws allan o grafiad bach mae'n anhygoel! Dwi ddim yn credu y dylen ni ddibynnu ar weithwyr chwarae i wneud popeth i ni a chael popeth drwy'r amser ond mae'n dda eu cael o gwmpas oherwydd eu bod nhw'n medru cario pethau trwm i ni a deall sut ydyn ni'n teimlo ac os ydyn ni'n drist fe fydden nhw'n ceisio ein helpu.

Dwi wedi ysgrifennu am y pethau yn y cynllun sy'n golygu rhywbeth i mi. Mae tipyn ohono yn bethau i oedolion ei wneud a dwi'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf o blant yn hoffi cymryd rhan pan ei fod yn rhywbeth y maen nhw'n ei ddeall ac yn medru cymryd rhan ynddo.



**children's
playcouncil**

Cyngor Chwarae Plant:

**Issy Cole-Hamilton, Prif
Swyddog Polisi ac Ymchwiliad
Cyngor Chwarae Plant Lloegr.**

Y sgôr yw Cymru 60; Lloegr 15. Ond dim y rygbi yw hyn – mae'n llawer iawn pwysicach na hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cnaud go iawn ar esgryn ei Pholisi Chwarae – datblygiad i'w groesawu'n fawr sy'n sicr o fod i blant Cymru.

Yn Lloegr rydyn ni'n symud ymlaen yn araf – ac yn gadarn fe gredwn – tuag at ymagwedd fwy strategol at ddarpariaeth chwarae ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor Chwarae Plant, gyda chefnoogaeth gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon – yn datblygu dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer cyfleoedd chwarae. Mae'r Adran yn paratoi cyhoeddiad yn disgrifio 'gweledigaeth chwarae' y Llywodraeth a sut y dylid mynd â hyn ymlaen a dylai pob awdurdod lleol fod yn datblygu strategaeth chwarae er mwyn cyrchu eu rhan o Raglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri Fawr.

Mae hyn i gyd yn gadarnhaol ac yn gyffrous ond fe fydden ni'n teimlo yn llawer mwy hyderus os byddai'r llywodraeth yn Lloegr yn dilyn arweiniad Cymru ac yn cyhoeddi polisi chwarae gyda chynllun gweithredu yn gwneud ymrwymiadau mor gryf i blant a phobl ifanc.

Rydyn ni'n chwarae dal i fyny ar y funud ond byddwn yn dysgu gan Gymru ac efallai y bydd plant a phobl ifanc Lloegr yn y dyfodol yn cael yr un anogaeth a diogeliad ar gyfer eu chwarae a'u hamser rhydd â phlant a phobl ifanc Cymru. Llongyfarchiadau.



Play Scotland:

Pan ddaw i bwysigrwydd chwarae yn y gymuned, mae gan yr Alban ffordd bell i fynd i ddal i fyny gyda Chynllun Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Chwarae Cymru wedi llwyddo i oresgyn y ffactor dibwys yn chwarae plant a sicrhau fod gwasanaethau chwarae yn dod yn ofyniad statudol yn hytrach na



Marguerite Hunter-Blair, Cyfarwyddyd

gwywo ar ben meddal disgrisiwn polisi cyhoeddus. Estynnwn ein llongyfarchiadau i Gymru ar eu cam hanesyddol ymlaen a diolch iddynt am wneud ein taith gymaint â hynny yn rhywyddach.



Cymdeithas Chwarae Ryngwladol:

**Valerie Fronczek, Swyddog
Cyfathrebu, IPA, y Gymdeithas
Chwarae Ryngwladol: Hyrwyddo
Hawl Plentyn i Chwarae.**

Profiad amheuthun oedd darllen y geiriau "chwarae yw'r broses ddysgu elfennol y datblygodd y ddynoliaeth drwyddi", nid fel cyflwyniad i gynnig esoterig o dŵr ifori ond fel rhan o bolisi llywodraeth genedlaethol! Mae'r diffiniad manwl o chwarae sy'n dilyn yr un mor amheuthun o gofio'r rhwystr anhwygoel y mae'r cysyniad hwn mor aml yn ei gyflwyno i ddarpar hyrwyddwyr chwarae ym mhob rhan o'r byd.

Wedyn, wrth i mi adolygu holl ddogfen Chwarae yng Nghymru, mae ehangder a'i strategaethau cyllid a gwerthuso cynhenid yn gwneud argraff fawr amaf. Nid oes unrhyw gwestiwn fod darpariaethau chwarae yn torri ar draws disgyblaethau awdurdodau, gweinyddiaethau, adrannau a phroffesiynol, a bod y ffaith hon yn llesteirio cynnydd darpariaeth chwarae ym mhob rhan o'r byd. Mae'r polisi hwn wirioneddol fel petai wedi ei weld drwy lygad plentyn. Nid yw plant wedi eu rhoi yn gydrannau ar wahân.

Rwy'n cymeradwyo hyrwyddo cydweithredu rhwng asiantaethau; y sylw i blant gydag anableddau, ac i blant o wahanol daiwyllynnau; defnydd ysgolion fel adnodd gymunedol – a hyfforddi staff ysgol am bwysigrwydd chwarae, ymgyfraniad y gymuned mewn darpariaeth chwarae,

hyrwyddo gwaith chwarae fel proffesiwn uchel ei barch, ac efallai'n bennaf oll y pwyslais ar gynnwys plant mewn cynllunio.

Mae IPA yn pryderu am y flaenoriaeth isel a roddir i chwarae gan lofnodwyr Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – yn bryderus mai anaml y sonnir am yr hawl i chwarae yn yr adroddiadau rheolaidd a wnaiff gan genhedloedd y byd. Un o gryfderau mwyaf Confensiwn y Deyrnas Unedig yw bod yr holl erthyglau yn rhyng-gysylltiedig ac anwahanadwy. Er bod erthygl 31 yn trafod yn benodol hawl y plentyn i chwarae, mae llawer o rai eraill sydd hefyd yn berthnasol megis y rhai sy'n ymwneud â datblygiad, hawl plentyn i gael ei glywed a diddordebau gorau'r plentyn.

Mae Cymru felly wedi rhoi enghraifft wych o rôl bwysig darpariaeth chwarae wrth weithredu Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hyderaf y bydd y cyflawniad hwn nas gwelwyd ei debyg yn unrhyw ran o'r byd (cyn belled ag y gwn) yn fwy na throednodyn yn adroddiad nesaf Prydain i'r Cenedloedd Unedig ac y bydd yn ei dro yn cryfhau penderfyniad adfocaciaid chwarae ym mhob rhan o'r byd i godi'r rhwystr ar yr hyn y meddir ei gyflawni ar ran plant.

Bu gwaith Valerie yng Nghanaada yn bennaf ym meysydd adfocaciaeth plant a chynllunio cymdeithasol. Mae ar hyn o bryd (ar ôl ymddeol) yn Llywydd y Sefydliad Rhyngwladol ar Hawliau a Datblygiad Plant (Prifysgol Victoria) ac yn Swyddog Cyfathrebu IPA. Mae'n amcangyfrif ei bod yn dair rhan allan o bump yn Gymraes – amcangyfrif a gynyddodd ychydig ar ôl darllen Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Cymru!

I gael gwybodaeth bellach am y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol gweler www.ipaworld.org.



Rospa:

David Yearley, Cyngorydd
Diogelwch Meysydd
Chwarae, y Gymdeithas
Frenhinol er Atal Damweiniau



Mae'n wych gweld plant yn dod yn ganolog i gymdeithas drwy bolisiau ac amcanion y llywodraeth. Mae'n sicr y

bydd creu amgylchedd iach ar gyfer pob plentyn yng Nghymru lle medrant fynegi eu hawl i chwarae yn fanteisiol ar gyfer eu datblygiad yn ogystal ag ar gyfer lles y cymunedau y maent yn byw ynddynt ac i'r gymdeithas gyfan.

Mae'r gydnabyddiaeth fod cymryd risg yn elfen hanfodol o chwarae yn bwysig; dylai plant fedru chwarae a dysgu mewn amgylchedd sy'n eu cyflwyno yn briodol i risg, heb beryglon amhriodol.

Mae'r pwyslais ar annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan wrth gynllunio a dylunio amgylchedd chwarae i'w gymeradwyo, a bydd y ffocws nas gwelwyd ei debyg ar feysydd chwarae antur yn dangos yr hyn y gall dychymyg plant ei gyflawni.

Gobeithir y bydd y polisi yn arwain plant i ymwneud mwy â'u hamgylchedd lleol drwy ymrwymo gyda gofod chwarae sy'n rhoi ystyriaeth i'r fantol rhwng risg a chwarae.



Cyngor Sir y Fflint

Mike Hornby, Rheolydd
Gwasanaethau Hamdden
Cyngor Sir y Fflint.

Yn gyffredinol does dim dau amdani, mae'r Cynllun Cyflawni yn fuddiol i chwarae plant a darparwyr chwarae plant. Rydym ben ac ysgwyddau uwchben gwledydd eraill Prydain ac mae'n dda fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadarnhau ymrwymiad cryf a chllir. Fodd bynnag, rwy'n siomedig nad aeth ymhellach – roedd argymhellion y Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae yn llawer cryfach ac rwy'n pryderu am ddau bwynt:

1. Na chynhwyswyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer chwarae plant. I wneud i hyn weithio, byddem angen gwarant o adnoddau tebyg i addysg, priffyrdd ac ati. Yn y cyfamser, y ffordd y gweithiwn yn Sir y Fflint yw cydnabod darpariaeth gwasanaeth fel bod yn hanfodol yn nhermau ansawdd bywyd. Mae cynghorau bob amser yn edrych am ffyrdd i wella gwasanaethau ac ar yr un pryd i sicrhau arbedion. Os gwnawn yn siwr fod digon o ganlyniadau cadarnhaol o'n gwaith o fewn chwarae plant, yna medrwn fod â pheth hyder am ddiogelu adnoddau.
2. Pan ddaw i ddefnyddio caeau chwarae ysgol y tu allan i oriau ysgol gan blant a phobl ifanc, mae'r Cynulliad yn "annog" ysgolion i agor eu tir fel adnoddau chwarae. Pe byddai ysgolion wedi eu cyfarwyddo, yn hytrach na'u "hannog" byddai yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ofod agored cyhoeddus ar gyfer plant sydd, wedi'r cyfan, yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd y tu allan i'r ysgol – meddyliwch am wyliau'r haf. Fel darparydd gwasanaeth a rheolydd, byddwn wedi croesawu hyn yn fawr.



Heledd Wyn Hardy:

Heledd Wyn Hardy, mam
Trystan (9) ac Alys (7).

Falch o fod yn Fam o Gymru

Pleser o'r radd eithaf oedd darllen y ddogfen Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rwy'n falch i fyw mewn gwlad sy'n cydnabod bod chwarae yn "weithgaredd hanfodol bwysig". Mae'r Cynulliad yn datgan ei gweledigaeth hirdymor sef y dylid "trin plant a phobl ifanc fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned". Fel mam i ddau i o blant gwerthfawrogaf gyfraniad y Cynulliad at eu dyfodol. Nid yn unig y bydd gwella ansawdd bywyd i bawb sy'n byw yng Nghymru heddiw, ond mae'r ddogfen hefyd yn pwysleisio eu nod craidd, sef y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle i fanteisio ar amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys chwarae.

Rwy'n croesawu'r bwriad i roi arweiniad i rieni. Mae'n hen bryd camu allan i'r awyr agored a threulio amser gyda'n plant wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd tu hwnt i'r teledu neu gyfrifiadur. Dylid meithrin eu dychymyg mewn amryw ffordd ond yn bennaf oll, rhoi gwagle iddynt ddarganfod pethau ar eu liwt eu hunain. Credaf fod y ddogfen hon yn hynod o bwysig, nid yn unig i iechyd ein plant ond hefyd i addysgu a datblygu rhyngweithiad i sicrhau cymdeithas sy'n parchu ei gilydd.

Yn y ddogfen, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylid pwysleisio "camau ymarferol yn hytrach na datganiadau o egwyddor". Fy ngobaith i yw y bydd y Cynulliad yn cadw at ei addewid i greu gwlad sy'n darparu cyfleoedd i greu gwell ansawdd bywyd i blant a'u teuluoedd yng Nghymru benbaladr.

Diolch i:

Diolch i Austin, Caitlin, Fern, Gwilym, Ieuan, Isaac, Joe, John, Mali, Maria, Millie, Morgan, Patrick, Robert, Steve a Zoe am ddarparu cyfleoedd lluniau gwych yn lansiad Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru, a diolch i Debra Jones a Paul Rowley am dynnu'r lluniau.



Beth sydd mewn enw? Mae'r dialog yn parhau ...

Yn rhifyn diwethaf Chwarae dros Gymru, ymchwiliodd Jan Oliver, Swyddog Hyfforddiant Clybiau Plant Cymru, beth o'r dryswch o amgylch rolau a theitlau mewn gofal plant a gwaith chwarae. Teimlodd dau ddarlennydd fod yn rhaid iddynt ymateb:

Fel Jan, rwyf yn un o lawer o bobl a fu'n gweithio am flynyddoedd yn y sector chwarae ac wedi ennill profiad o osodiadau blynyddoedd cynnar, clybiau ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae haf, chwarae antur a darpariaeth arall sy'n cynnig cyfleoedd i chwarae, ac yn teimlo hynny er nad ydym efallai i gyd yn cytuno gyda'r holl newidiadau yr ydym wedi byw drwyddynt, ni all ond bod yn beth cadarnhaol fod gwaith chwarae yn gadarn ar agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae yn dweud yn glir os yw ymarferwyr ledled Cymru i rannu a chyflawni gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o bwysigrwydd profiadau chwarae ansawdd uchel, bod angen datblygu syniad cyffredin o sut bethau yw cyfleusterau chwarae da. Mae'n glir pan fo'r Cynulliad yn cyfeirio at gyfleusterau chwarae, y bwriedir cynnwys pob math o ofal plant. Yn fy marn i dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y derminoleg a ddefnyddir yng nghyswllt staffio.

Rwy'n anghytuno gyda Jan pan mae'n dewis y teitl hybrid Gofalydd Chwarae. Mae'r geiriadur yn diffinio hybrid fel rhywbeth anffurthlon. Mae Jan yn sôn bod gweithwyr mewn clybiau yn ansicr os mai gofalyddwr plant neu gweithwyr chwarae ydynt. Teimlaf na ddylai'r gosodiad diffinio'r proffesiwn; mae angen i blant chwarae yn eu hamser rhydd eu hunain ac felly dylai pob gweithiwr o fewn gofal plant fod yn weithiwr chwarae yn ymarfer o fewn ethos sy'n gosod chwarae plant yn gyntaf – yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

Mae'r llwybr gyrfa a gynigir i bobl sy'n dymuno dilyn gwaith chwarae fel proffesiwn yn amlwg yn annog myfyrwyr i ddilyn Diploma Cache Lefel II a Lefel III mewn Gwaith Chwarae, felly mai pam y byddai unrhyw sefydliad yn cymeradwyo defnyddio teitl nad yw'n bod yn fy nrysu rywfaint. Dim ond drwy ddull strwythuredig sy'n rhoi diffiniadau clir a ffiniau proffesiynol y medrwn ddatblygu hygrdedd y proffesiwn gwaith chwarae. Ni fydd hybrideiddio ac felly lastwreiddio enwau yn ein helpu i fod yn weithlu cydlynol gyda'i hunaniaeth ei hun neu ennyn parch rhwng gweithwyr p'un ai mewn gosodiad gofal plant neu fynediad agored y cânt eu cyflogi.

Barbara Howe,
BA (Anrh) Astudiaethau Cymunedol (Gwaith Chwarae)

Diweddariad Prosiect Cwlwm – Deunyddiau Newydd Gwaith Chwarae

Fel y gŵyr llawer ohonoch mae'n siwr, mae Chwarae Cymru yn datblygu deunyddiau hyfforddiant ar gyfer gweithwyr chwarae ar gyfer cynefino, lefel 2 a 3 a hyfforddiant ar gyfer hyfforddwyr gwaith chwarae. Mae'r prosiect yn rhan o bartneriaeth datblygu CWLWM a ddatblygir gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd fel rhan o raglen EQUAL.

Bydd y prosiect yn cynnig amgen blaengar i gymwysterau presennol drwy ystyried chwarae o safbwynt biolegol a chymdeithasol. Bydd yn cynnig amrediad o dechnegau a dulliau yn cynnwys dysgu o brofiad sy'n galluogi gweithwyr chwarae i ystyried cymhlethdodau'r hyn sy'n digwydd pan fo plant yn chwarae ac edrych ar agendâu 'oedolion' allanol sy'n gwrthdaro gyda'r ysgol i chwarae.

Bedwar mis i mewn i'r prosiect ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd cyflym mewn nifer o feysydd. Gyda chymorth cyfathrebu ar y we, mae grwpiau llai yn mynd i'r afael â'r gwahanol gydrannau sy'n rhan o gwrs llwyddiannus, yn cynnwys deunyddiau dysgu, seilwaith, achrediad, cefnogaeth a chyflwyno.

Yr hyn y gall llawer o bobl fod yn llai gwybod amdano yw ein bod hefyd yn y broses o dendro ar gyfer cynhyrchu DVD a ffilm am chwarae plant. Bydd y ffilm yn dangos amrywiaeth o blant mewn lleoedd ledled Cymru o faes chwarae ysgol i'r stryd, ac o draeth i barc lleol.

Ein nod yw annog trafodaeth a hysbysu gweithwyr chwarae ac eraill y mae eu gwaith yn cael effaith ar chwarae plant yng Nghymru, am arfer da mewn hwylyso chwarae plant – o weithio dydd i ddydd, i'r ffordd y gall plant ail-hawlio gofod cyhoeddus.

Fel dogfen arsyllol, gobeithiwn y bydd yn ein hysbrydoli, goleuo ac yn ddadleuol – ond yn hollol groes i raglenni teledu realaeth bresennol sy'n portreadu plant fel pethau dieflig.

Yn ogystal â chefnogi dysgu myfyrwyr ar y cyrsiau newydd, caiff y ffilm ei dorri yn gyfres amlran i'w darlledu ar gyfer cynulleidfya fwy prif ffrwd. Cawsom ddiddordeb eisoes gan gynhyrchwyr teledu pwysig yn cynnwys BBC Cymru ac S4C a gobeithiwn y caiff ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Richard Trew
Rheolydd Cwlwm Prosiect

I gael mwy o wybodeth am bartneriaeth Cwlwm gweler www.cwlwm.org.uk





Pwysigrwydd y Strategaeth Chwarae i Weithwyr Chwarae

Felly o'r diwedd mae llywodraeth ddigon blaengar yn Ynysydd Prydain i gyflwyno'r strategaeth chwarae genedlaethol gyntaf erioed (neu gynllun cyflawni polisi). Ac nid yw'n syndod mai yng Nghymru mai hynny oherwydd ei bod yn rhan o ymrwymiad parhaus Llywodraeth y Cynulliad i blant a phobl ifanc.

Onid mae cyflwyniad y Strategaeth Chwarae hefyd yn wych ar gyfer gweithwyr chwarae; am y tro cyntaf mae cydnabyddiaeth glir o'r angen am weithwyr chwarae sydd wedi eu hyfforddi ac sydd â chymwysterau a darpariaeth chwarae antur. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod fod gwaith chwarae yn broffesiwn neilltuo ac yn dymuno gweld darpariaeth chwarae wedi ei staffio gan weithwyr a hyfforddwyd i ddeall sut i hyrwyddo chwarae cynhwysol a ddewisir yn rhydd. Mae dealltwriaeth glir o'r angen i gefnogi cymwysterau hyblyg i ddenu a chadw pobl i faes gofal plant, gwaith ieuencid a chwarae tra'n sicrhau na chaiff ansawdd chwarae plant ei ostwng. Mae cydnabyddiaeth y bydd angen i wahanol broffesiynau ddeall iaith ei gilydd a gwerthfawrogi eu cyfraniadau.

Mae'r strategaeth yn esbonio y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Chyngor Gofal Cymru i ddatblygu gweithlu plant integredig, yn cynnwys fframwaith cymwysterau sy'n ymgorffori gwaith chwarae a chraidd cyffredin o sgiliau a gwybodaeth. Crëir rhwydwaith yn cynrychioli'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a fydd yn cynnwys SkillsActive, i hwyluso ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer datblygu'r gweithlu, yn cynnwys cymwysterau a hyfforddiant.

Mae'r amserlen cyflawni a amlinellir yn y strategaeth ar gyfer y proffesiwn gwaith chwarae yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn sicrhau:

- bod cyfleoedd hyfforddiant priodol ar bob lefel ar gyfer gweithwyr chwarae
- y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu gweithlu plant yn cynnwys fframwaith cymwysterau sengl a datblygu craidd cyffredin o sgiliau a gwybodaeth
- y bydd Llywodraeth Cynulliad yn chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael â mater recriwio a chadw mewn cysylltiad gyda SkillsActive, y cyngor sgiliau sector.

Yn ychwanegol mae hefyd ymrwymiad i ledaenu'r gair am bwysigrwydd chwarae ym mywydau plant yn gyffredinol, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu arweiniad ar yr hyn sy'n cyfrif fel cyfleoedd chwarae ansawdd uchel ac yn dweud y dylai gofal allan o'r ysgol roi cyfleoedd i blant ar gyfer chwarae a ddewisir yn rhydd.

Yr amserlen ar gyfer y camau gweithredu hyn yw ar unwaith gydag

amserlenni rhwng nawr a 2008. Mae'r amseriad hwn yn berffaith oherwydd ei fod yn cyd-daro gyda Strategaeth gyntaf y DU ar gyfer Addysg Gwaith Chwarae, Hyfforddiant a Chymwysterau sydd ar fin cael ei gyhoeddi gyda Chynllun Cyflawni i Gymru.

Yn dilyn ymgynghoriad helaeth gyda'r sector gwaith chwarae, mae SkillsActive wedi gweithio gyda chydweithwyr yng Nghymru i gynhyrchu'r cynllun cynhwysfawr hwn a fydd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant gwaith chwarae dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn rhoi sylw i'r uchelgais i adeiladu gweithlu gwaith chwarae proffesiynol sy'n cysylltu ac yn pontio gyda sectorau eraill a sefydlu partneriaethau cryf. Mae'n cydnabod y bu cynnydd sylweddol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda nifer y bobl sy'n gweithio gyda phlant sydd angen iddynt gael cymwysterau. Mae'n rhagweld y bydd ehangu'r gweithlu cymwysedig hwn yn parhau ac y bydd angen amrywiaeth o lwybrau dysgu, mwy o gyfleoedd ac amrediad ehangach o sgiliau i ateb anghenion dysgwyr presennol a newydd. Mae'n cydnabod y bydd angen datblygu cymwysterau newydd gydag amrediad o ddulliau cyflwyno e.e. hyfforddiant ar y swydd ac e-ddysgu ac amrywiaeth o ddulliau asesu yn cynnwys ymarfer a asesir. Daw Datblygiad y Fframwaith Credydau a Chymwysterau i Gymru yn ffordd gydlynol i ddysgwyr a bydd yn yrrw sylweddol i gynyddu targedau cymwysterau'r gweithlu. Bydd cymwysterau yn gysylltiedig â rolau a ddynodwyd o fewn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chânt eu cyfateb â'r Fframwaith i adlewyrchu'r lefelau gwahanol o arbenigedd sydd ei angen a'r amrediad eang o rolau a wneir o fewn y proffesiwn.

Cyhoeddir Cynllun Cyflawni Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru yn ddiweddarach eleni fel rhan o Gytundeb Sgiliau Sector SkillsActive a bydd yn help i wneud y camau gweithredu 'Chwarae yng Nghymru yn realaeth.

Gwyddom fod plant yn manteisio o ddarpariaeth ansawdd uchel gyda staff ond y realaeth yw mai'r llywodraeth yng Nghymru yw'r unig un sy'n darparu fframwaith ar gyfer gweithredu lleol a chydabyddiaeth y gall gweithwyr chwarae wneud cyfraniad gwirioneddol i chwarae plant.

Tanny Stobart, Skillsactive

Chwarae yng Nghymru (parhad)

parhad o dudalen 1

Yr Hanes

Ym mis Hydref 2002 torrodd y Cynulliad Cenedlaethol dir newydd pan gyhoeddodd Jane Huft y Gweinidog Plant bolisi chwarae cyntaf y byd.

Yn 2004 daeth y Cynulliad â grŵp o gynrychiolwyr o sefydliadau sydd â diddordeb a swyddogion o amrediad o

adrannau i ymchwilio sut y medrid gweithredu'r polisi ar draws Cymru. Lluniodd Chwarae Cymru a Phlant yng Nghymru gyfres o argymhellion gan y grŵp a chyflwynwyd y rhain ar gyfer ymgynghoriad a ddaeth i ben yn gynnar yn 2005. Roedd gan yr ymgynghoriad gefnogaeth allbleidiol, ac un o'r nifer fwyaf o ymatebion i unrhyw ymgynghoriad a welodd swyddogion hyd yma.

Er i'r Polisi Chwarae roi ysbrydoliaeth i lawer o ddarparwyr chwarae, roedd rhai yn amheus am sut y medrid ei weithredu'n effeithiol ac mae rhai sy'n parhau i gael eu herio gan y cysyniadau ynddo. Arhosodd

sector chwarae Cymru (a chynulleidfa ryngwladol gyda diddordeb) yn obeithiol gan ddisgwyl strategaeth fyddai'n cefnogi eu gwaith yn y fan a'r lle, ac am dargedau go iawn a'r gefnogaeth ariannol i wneud eu gweledigaeth yn realaeth. Yn y cyfamser symudodd y cyfrifoldeb am chwarae i adran Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad, lle'r oedd y Gweinidog a swyddogion yn glir iawn er bod pwysau i gwblhau'r broses a ddechreuwyd yn 2002, eu bod eisieu cymryd amser i gael y gwaith yn iawn. Lanswyd Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 15 Chwefror 2006.



Digwyddiadau

17 a 18 Mai

Ysbyrd Chwarae Antur, Caerdydd.

Cynhadledd Chwarae Cymru ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n defnyddio, neu sy'n gobeithio defnyddio'r dynesiad maes chwarae antur.

Cysyllter â'n swyddfa genedlaethol 029 2048 6050 neu phil@playwales.org.uk.

Mae'r siaradwyr cyweirnod yn cynnwys Roger Hart a Jane Davidson AC.

18 – 21 Mai 2006

Cynhadledd CYWU, Llandudno

Cynhadledd undeb gweithwyr chwarae – croeso hefyd i rai heb fod yn aelodau.

Gweler www.cywu.org.uk

15 Mehefin 2006

Ensuring Play Value Cynhadledd Diogelwch Chwarae Ryngwladol RoSPA, Loughborough

Nod Cynhadledd Diogelwch Chwarae RoSPA yw helpu darparwyr chwarae i ddarparu ardaloedd cyffrous ond diogel ar gyfer plant i chwarae.

Cysyllter â Digwyddiadau RoSPA ar 0870 777 2120 neu e-bost events@rospa.com.

5 – 7 Gorffennaf 2006

Planning and Designing Healthy Public Outdoor Spaces for Young People in the 21st Century, Bryste

Chwarae awyr agored a rôl dyluniad cynhwysol o ofodau awyr agored fel ffordd o hyrwyddo chwarae. Gwahoddir papurau a chyflwyniadau.

Cysyllter â Chyfadran yr Amgylchedd Adeiledig, Prifysgol Gorllewin Lloegr, 0117 965 6261

21 – 23 Gorffennaf 2006

Cynhadledd Wild and Away, Swydd Caerloyw

Bydd y gynhadledd yn dod ynghyd, dathlu a hyrwyddo'r brwdfrydedd cynyddol dros waith chwarae amgylcheddol yn y DU.

<http://www.playwork.co.uk/wildaboutplay/index.htm>

Beth sy'n Newydd..

...yn ein Hadnodd Gwybodaeth

Mae Adnodd Gwybodaeth Chwarae Cymru ym Mae Caerdydd gyda changen yn ein Swyddfa'r Gogledd ym Mhrestatyn yn rhoi amrediad eang o ddeunydd ysgrifenedig a gweledol a ddiweddarar yn rheolaidd ar chwarae plant a phobl ifanc a phob math o ddarpariaeth chwarae. Ar gyfer ymholiadau, neu i wneud apwyntiad i ymweld, cysyllter â'n Swyddog Gwybodaeth Gill Evans ar 029 2048 6050 neu e-bost info@playwales.org.uk.

...Neighbourhood Play Toolkit –

adnodd gan y Cyngor Chwarae Plant a'r Biwrô Plant Cenedlaethol ar gyfer grwpiau lleol a gwasanaethau chwarae yn gweithio i gynyddu mynediad i gyfleoedd chwarae cymdogaeth dda. ISBN 1 904787.

Byddwn yn rhoi'r CD-rom hwn i grŵp lleol sy'n fodlon i'w adolygu ar gyfer ein rhifyn nesaf. Cysylltwch â Gill Evans os hoffech wirfoddoli.

...Playing on the Wildside –

adnodd ar gyfer pobl sy'n dymuno galluogi cyfleoedd i blant i chwarae yn rhydd yn ac o amgylch amgylcheddau naturiol, a gynhyrchwyd fel rhan o brosiect partneriaethau Wild About Play Playwork, Prifysgol Caerloyw.

Cyswllt 01242 532 949 neu team@playwork.co.uk

...Inclusion of disabled children in primary school playgrounds,

Sefydliad Joseph Rowntrey, Wollley, Armitage, Bishop, Curtis a Ginsborg. Yn seiliedig ar yr ymchwil hwn, mae'r llyfr yn dangos sut y cynhwysir plant anabl mewn chwarae ac yn dynodi rhwystrau trefniadol, cymdeithasol a chorfforol ac arfer da.

Gwybodaeth bellach yn www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/0016.asp

BRYS – oherwydd na wyddwn ni faint hirach y bydd yn parhau.

Prynwch 2 gopi o'r HAWL CYNTAF drwy Amazon ac arbed £10.00.

Wyddon ni ddim faint hirach y medrant barhau â hyn oherwydd ni yw'r unig ffynhonnell ac wedi bod yn gwerthu'r HAWL CYNTAF i bawb am yr un pris o £14.50 yn cynnwys p&ph. Mae'n ymddangos bron rhy dda i fod yn wir!